# Y GYMRU WLEDIG

## AMSER I YMATEB I'R HER 2025

ELUNED MORGAN AC

# CYNNWYS


**pt.1**

STRATEGAETH AR GYFER Y DYFODOL

**pt.2**

CYNLLUN CHWE PHWYNT

**pt.3**

PROSIECTAU PEILOT

**pt.4**

CYFLAWNI






# STRATEGAETH AR GYFER Y DYFODOL

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r achos dros strategaeth fwy cydlynol i sicrhau mwy o ffyniant yn ardaloedd gwledig Cymru. Mae pwyslais ar ddull mwy cydgysylltiedig o ddatblygu'r economi yn y rhanbarth yn ganolog i'r cynllun.

Nawr yw'r amser i adeiladu ar fentrau sy'n bodoli eisoes ac ailedrych ar ein polisi ar gyfer y Gymru Wledig. Mae angen i ni ystyried sut i ymateb i bwysau globaleiddio, a chanlyniadau gadael yr Undeb Ewropeaidd fel y gall ein pentrefi bach, ein trefi marchnad a'n cymunedau arfordirol a'u pobl ffynnu.

Byddem o blaid datblygu polisi clir yn seiliedig ar lefydd, gyda'r sector preifat, Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn gyfrifol am lunio ac arwain y polisi yn dilyn ymgynghoriad gyda'r boblogaeth leol i fynd i'r afael â'r sbectrwm o heriau sy'n ein hwynebu yn y Gymru Wledig.

Pwrpas y ddogfen hon yw cynnig syniadau i Lywodraeth Cymru gan unigolion a sefydliadau sy'n byw a gweithio yn y rhanbarth er mwyn sefydlu rhaglen gadarn i baratoi ar gyfer economi ôl Brexit.

## BYDD Y GYMRU WLEDIG YN MYNNU CAEL EI CHYFRAN O'R CYLLID SYDD AR GAEL GAN LYWODRAETH CYMRU AR GYFER DATBLYGU ECONOMAIDD, A BYDD YN OFALUS I ADEILADU AR Y GWAITH DA SYDD EISOES AR DROED.

Mae angen dull integredig, cydgysylltiedig ar draws meysydd datblygu economaidd, cynllunio, trafnidiaeth a darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig i drefi gwledig bach sy'n aml yn ganolfannau economaidd i ardal ddaearyddol llawer mwy.

Mae ymatebion creadigol i her cyni eisoes yn cael eu hystyried er mwyn atal cau gwasanaethau cyhoeddus a masnachol fel ysgolion, llyfrgelloedd, banciau a swyddfeydd post mewn trefi bach a chymunedau gwledig.

## MAE BREXIT YN FYGYTHIAD MAWR, OND MAE HEFYD YN SBARDUN NI FEDDWL YN GREADIGOL ER MWYN WYNEBU'R HERIAU SYDD O'N BLAENAU.

## EIN CENHADAETH FYDD ANNOG DATBLYGU GWLEDIG DOETH AC ARLOESOL SY'N CEISIO SICRHAU ECONOMI CYNALIADWY A CHYNHWYSOL.

Mae'n rhaid i'r economi wledig baratoi ar gyfer y symudiad tuag at fwy o awtomeiddio a'r defnydd o Wybodaeth Artiffisial a'r lleihad posibl mewn rolau traddodiadol, gan annog swyddi medrus, uwch dechnoleg yn yr ardal.

Bydd y ddogfen hon yn nodi rhai argymhellion allweddol, a fydd yn gofyn i Lywodraethau Cymru a'r DU ymyrryd lle mae'r farchnad yn methu er mwyn darparu gwasanaethau cyhoeddus sylfaenol ac annog buddsoddiad.

Dylid nodi'n glir pa fath o wasanaethau cyhoeddus y dylid eu darparu mewn ardaloedd gwledig, fel y gellir dal Llywodraeth Cymru'n atebol a rheoli disgwyliadau'r cyhoedd.

Dylid nodi'n glir pa fath o wasanaethau cyhoeddus y dylid eu darparu mewn ardaloedd gwledig, fel y gellir dal Llywodraeth Cymru'n atebol a rheoli disgwyliadau'r cyhoedd.

Dylid meincnodi er mwyn mesur cyflawniad yn erbyn meysydd eraill ac annog pobl i fabwysiadu ffyrdd newydd os oes diffygion.





## YR AMCAN FYDD SICRHAU EGLURDER, SYMLRWYDD, PARHAD, EFFEITHLONRWYDD A HYBLYGRWYDD.

Mae'r cynigion yn y ddogfen hon wedi'u profi ar sefydliadau a busnesau sy'n ffynnu a'r rhai sy'n cael trafferth i oroesi i ffwrdd o farchnadoedd trefol. Am flynyddoedd lawer rydym wedi ceisio creu cymunedau sy'n "gallu gwneud", ond mae diogi a cheidwadaeth wedi ennill y dydd yn aml.

Mae'n hawdd cytuno ar bethau i'w gwrthwynebu, ond yn aml iawn mae'n anoddach cefnogi'r pethau a all ddod â newid ystyrlon. Mae hefyd yn hollbwysig nodi bod amgylchedd a thirwedd y Gymru Wledig yn asedau hanfodol a all sbarduno datblygiad arloesol ar gyfer economi gynaliadwy.

Gwyddom fod yr amgylchedd a thirweddau'r Gymru Wledig yn cael eu trysori gan gymaint ohonom, a bod yn rhaid eu gwarchod, ond ni ddylent ddod yn rheswm dros beidio â datblygu'n economaidd lle bo hynny'n briodol ac o'i wneud yn sensitif; mae'n rhaid sicrhau cydbwysedd.

## "MAE'N RHAID NEWID AGWEDD I SICRHAU BOD Y DULL CADARNHAOL HWN YN LLWYDDO. MAE ANGEN SYMUD I FFWRDD ODDI WRTH OSGOI RISGIAU A PHENDERFYNIADAU ARAF."



Mae angen parchu effeithiau amgylcheddol a chynlluniau datblygu lleol, ynghyd â'u haddasu'n adeiladol.


Byddem yn cefnogi argymhellion Adroddiad Marsden a Tirweddau'r Dyfodol, Cyflawni dros Gymru sydd wedi awgrymu y dylai'r Parciau Cenedlaethol newid eu pwrpas i fod yn sbardunwyr datblygiad rhanbarthol mewn ardaloedd gwledig.

Gan fod adnoddau'n brin bydd angen symleiddio cynllunio gan ganolbwyntio ar benderfyniadau cryno ac amserol wedi'u cefnogi gan awdurdodau cynllunio sydd â digon o adnoddau.

Mae'n hanfodol cael cynllun cyflawni ystyrlon a chlir gyda chyfrifoldeb am ganlyniadau wedi'i nodi'n llawn.

Dylid cyflawni ar lefel leol cyn belled bo hynny'n bosibl, a dylid annog gwaith partneriaeth yn cynnwys gyda'r sector preifat.

Fodd bynnag, dylai monitro canlyniadau'n ofalus a methiant i gyflawni olygu bod y cyfrifoldeb yn nwylo Llywodraeth Cymru.





# CYNLLUN DATBLYGU ECONOMAIDD “GWNAED YN Y GYMRU WLEDIG”

Dylai’r cynllun datblygu economaidd fod yn un sy’n cael ei ddatblygu yn y Gymru Wledig, gan y Gymru Wledig, ar gyfer y Gymru Wledig ac nid yn gynllun a orfodir ar y Gymru Wledig gan Gaerdydd.

I’r diben hwnnw, mae grŵp o bobl sydd â phrofiad o gyflawni yn y Gymru wledig wedi dod at ei gilydd i wneud rhai argymhellion cychwynnol i Lywodraeth Cymru.



## CAIFF Y FFORWM DATBLYGU GWLEDIG EI GADEIRIO GAN AELOD CYNULLIAD CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU, ELUNED MORGAN, AC MAE’R AELODAU’N CYNNWYS:

Susan Balsom Cyfarwyddwr, Cambrian Mountains CIC, Ymddiriedolwr Artes Mundi / Melanie Doel Cadeirydd, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog / Yr Athro Medwin Hughes Is-ganghellor, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant / John Idris Jones Cadeirydd, Bwrdd Cynghori Menter Eryri / Stan McIlvenny OBE Cadeirydd, Ardal Fenter Dyfrffordd Aberdaugleddau / William McNamara Prif Swyddog Gweithredol, Canolfan Parc Cenedlaethol Bluestone, Sir Benfro / Glen Peters Rheolwr Gyfarwyddwr, Western Solar Ltd / Huw Thomas Rheolwr Gyfarwyddwr, Puffin Produce, Hwlffordd / Stephen Thornton Rheolwr Materion Cyhoeddus, Purfa Valero Penfro / Yr Athro Elizabeth Trysorydd Is-ganghellor, Prifysgol Aberystwyth / Eirwen Williams Cyfarwyddwr, Menter a Busnes / Elinor Williams Rheolwr Materion Rheoleiddio, Ofcom Cymru



FFORWM DATBLYGU GYDA KEN SKATES, YSGRIFENNYDD Y CABINET DROS YR ECONOMI A SEILWAITH.

COLEG Y DRINDOD, MAI 2017


Gofynnwyd i Gynghorau Tref a Chymuned y Canolbarth a'r Gorllewin hefyd beth oedd eu blaenoriaethau ar gyfer datblygu economaidd gwledig ac mae'r rhain wedi'u cynnwys yn y cynllun hwn.

Profwyd yr argymhellion hyn ar awdurdodau llywodraeth leol, aelodau Grwpiau Gweithredu Lleol a Byrddau Gwasanaeth Lleol yn y Gymru Wledig, sefydliadau cymunedol a busnesau gwledig.

Ein gobaith yw y bydd yr argymhellion yn llywio adolygiad Llywodraeth Cymru o'i strategaeth datblygu economaidd. Bydd angen cael rhagor o gefnogaeth gan gymunedau lleol a bydd angen cael strategaeth economaidd gymunedol o'r gwaelod i fyny a strategaeth fwy cyffredinol o'r brig.

## DIFFINIAD O CYMRU WLEDIG....

Byddem yn argymell i Lywodraeth Cymru alw cyfarfod o Fforwm Datblygu Gwledig CLlLC i ddarparu eu diffiniad o "Gymru Wledig" gan y bydd llywodraeth leol yn bartneriaid allweddol a fydd yn gyfrifol am y Cynllun Datblygu Gwledig newydd ac am y gwaith o'i gyflawni. Gellid ymestyn y cyfarfod hwn i gynnwys cyfranwyr allweddol eraill yn y Gymru Wledig.



## YR ACHOS DROS

# NEWID

### PAM CAEL CYNLLUN DATBLYGU GWLEDIG I GYMRU?

Dylai'r Gymru Wledig roi blaenoriaeth i adeiladu ar ei manteision cystadleuol naturiol er mwyn darparu swyddi gyda chyflogau uchel a sicrhau gwasanaethau o safon uchel i'w dinasyddion.

Mae'n rhaid darparu cyfleoedd economaidd a hyfforddiant medrus iawn, ynghyd â thai fforddiadwy, i'w rhentu a'u prynu, os yw pobl ifanc yn mynd i aros a chael dyfodol yn y Gymru Wledig.

Mae'r Gymru Wledig yn aruthrol o hardd ac yn cynnwys nifer o bobl entrepreneuraidd iawn.

Mae ganddi ddiwydiant twristiaeth sydd wedi hen ennill ei blwyf a Phrifysgolion o fri yn Aberystwyth, Llanbedr Pont Steffan, Caerfyrddin a Bangor. Mae'r rhain, ynghyd â sefydliadau Addysg Bellach, yn allweddol ar gyfer codi cyfraddau cynhyrchiant yn yr ardal.

Mae yna ardaloedd o dir ffrwythlon rhagorol ac adnoddau môr cyfoethog sy'n cynhyrchu bwyd o ansawdd. Mae Aberdaugleddau yn un o'r porthladdoedd strategol gorau yn y Deyrnas Unedig.

Mae'r Gymru Wledig yn darparu amgylchedd glân unigryw ar gyfer datblygu busnes, a'r cyfle i ddefnyddio natur fel adnodd economaidd pwysig. Mae hyn yn cynnig mantais farchnata ar gyfer mewnfuddsoddi a/neu adleoli busnesau modern.

Dylai'r Gymru Wledig fanteisio ar y cyfleoedd a ddaw yn sgil technolegau newydd a darpariaeth band eang cyflym iawn ar draws y rhan fwyaf o'r ardaloedd er mwyn bod yn barod ar gyfer y dyfodol.

Mae gan y Llywodraeth gyfrifoldeb i ymyrryd ac i wneud iawn am fethiant y farchnad mewn ardaloedd gwledig, yn enwedig o ran datblygiadau seilwaith allweddol.

**HEB WAITH, HEB IAITH.**

NO JOB, NO LANGUAGE

Y Gymru Wledig yw cadarnle'r Gymraeg o hyd, ond mae pobl ifanc yn arbennig yn gadael am yr ardaloedd trefol gan fod prinder swyddi medrus o safon yno. Economi fywiog yw'r unig ffordd o sicrhau twf a ffyniant y Gymraeg yn y Gymru Wledig.

# HERIAU YN ECONOMI Y GYMRU WLEDIG



## FFIGURAU CYNNYRCH DOMESTIG GROS A CHYNHYRCHIANT ISEL

Er bod cyflogaeth yn gymharol uchel mewn cymunedau gwledig, mae incwm y pen yn llai na mewn ardaloedd trefol.

Wrth edrych ar gynhyrchiant, mae Cymru ar ei hôl hi o gymharu â rhannau eraill o'r DU o ran gwerth ychwanegol gros, ar 71% o gyfartaledd y DU yn 2015, ac mae'r Gymru Wledig ar ei hôl hi o gymharu â rhannau helaeth o weddill Cymru (er enghraifft, roedd gwerth ychwanegol gros Powys yn 67.2% o gyfartaledd y DU).

Fodd bynnag, mae angen cydnabod na ddylid mesur llwyddiant ar sail ffigurau cynnyrch domestig gros yn unig. Dylem hefyd gofio am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru sy'n datgan bod angen ystyried ffactorau eraill fel yr amgylchedd, cydraddoldeb, ffyniant, iechyd, cyfrifoldeb byd-eang a'r Gymraeg, yn ogystal â data economaidd craidd.

Mae'n hanfodol bod gweithgarwch economaidd yn cael ei ddatblygu a'i ehangu yn y Gymru Wledig gan gynnal amgylchedd lle gall pobl fyw a gweithio'n gyffyrddus ynddo yr un pryd.
rtably.

## DINAS-RANBARTHAU

Mae gan Lywodraeth Cymru lawer o gynlluniau a rhaglenni datblygu economaidd i wella gweithgarwch economaidd, ac mae'n bwysig peidio ailadrodd y rhain, a rhoi'r gorau i rai prosiectau aflwyddiannus.

Yn ddiweddar, gwelwyd symud tuag at ddull datblygu economaidd yn seiliedig ar lefydd gan ganolbwyntio ar Ddinas-Ranbarthau.

Ar hyn o bryd, rhagdybir y bydd datblygu economaidd yn digwydd mewn pedwar rhanbarth: Dinas-Ranbarth Caerdydd, Dinas-Ranbarth Bae Abertawe, Bargen Twf Gogledd Cymru a Phartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru. Rydym yn dadlau bod rhai o'r rhanbarthau hyn yn gorgyffwrdd â'r Gymru wledig, ond y dylid datblygu strategaeth wledig benodol a fyddai'n cynnwys partneriaeth Twf Canolbarth Cymru, sy'n cynnwys Powys a Cheredigion.

Gall y Fargen Ddinesig hwyluso perthynas rhyngranbarthol o fewn y rhanbarthau a rhyngddynt. Mae'n hanfodol bod hyn yn digwydd ac nad oes unrhyw ffiniau artiffisial yn cael eu creu rhwng rhanbarthau. Mae angen i ni gefnogi Bargeinion Dinesig sy'n bodoli eisoes i sicrhau cymaint o effaith gwledig â phosibl, yn enwedig yn Ninas-Ranbarth Bae Abertawe sy'n cwmpasu ardal wledig eang iawn.

Un o fanteision mawr cyllid yr UE yw ei fod yn gyllid aml-flwyddyn. Mae hyn yn golygu bod busnesau a sefydliadau'n gallu cynllunio yn y tymor hir. Bydd angen i Lywodraeth Cymru feddwl am ffordd o sicrhau bod y cynllunio tymor hir hwn yn gallu parhau, ac na fydd cylchoedd cyllideb blynyddol yn llesteirio datblygiad economaidd. Gellid helpu drwy roi'r arweiniad i awdurdodau lleol lle bo'n bosibl a dileu cyllid ôl-weithredol, gan nad yw busnesau bach yn gallu cynnal llif arian.




## BREXIT

Mae'r Gymru Wledig yn wynebu heriau ychwanegol o gymharu â rhannau eraill o Gymru gan fod €322 miliwn y flwyddyn mewn cymorth taliad uniongyrchol yn dod i Gymru gan y Polisi Amaethyddol Cyffredin, yn ogystal â €355 miliwn i gefnogi ei Rhaglen Datblygu Gwledig. O ran gwerth ychwanegol gros, mae cyfraniad ffermio yn gymharol fychan (0.71% ohono yn 2015), ond mae 58,300 o bobl yn cael eu cyflogi yn y sector (4.07% o gyfanswm cyflogaeth y rhanbarth).

Mae cyllid amaethyddol wedi'i ddosbarthu'n eang yn yr economi leol ac yn cynnal busnesau eraill. O dan unrhyw gytundeb masnach gyda'r UE yn y dyfodol, ychydig iawn o siawns sydd gan y DU o fod yn rhan o'r PAC, felly mae angen gwneud llawer o waith i ad-drefnu sut mae'r sector amaethyddol yn gweithio.

Mae'r heriau sy'n ein hwynebu yn sgil llai o gymorthdaliadau, mwy o dariffau, mwy o gystadleuaeth o'r tu allan i'r UE a mwy o waith papur yn golygu bod angen i ni ystyried sut y gellir ad-drefnu'r diwydiant amaethyddol yng Nghymru i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gynaliadwy.

Yn y gorffennol, mae cyllido datblygu economaidd mewn rhannau helaeth o Gymru wedi digwydd drwy gyfryngau cyllido'r UE yn bennaf.

Yn y Gymru Wledig, mae gwaith datblygu economaidd wedi'i ariannu drwy Raglen Datblygu Gwledig yr UE ac wedi denu bron i €1.13 biliwn o arian cyhoeddus am y cyfnod 7 mlynedd, 2014-2020 (€655.8 miliwn o gyllideb yr UE, yn cynnwys €292.4 miliwn a drosglwyddwyd o'r amlen ar gyfer taliadau uniongyrchol PAC, a €470.2 miliwn o drefniadau cyd-ariannu cenedlaethol).


Yn dilyn refferendwm BREXIT, mae yna ansicrwydd gwirioneddol ynghylch dyfodol cyllid datblygu economaidd ar ôl 2019 (er bod Llywodraeth y DU wedi addo anrhydeddu ffrydiau cyllido nes 2020).

Mae angen cyflymu penderfyniadau a thaliadau o'r Cynllun Datblygu Gwledig os ydym am allu manteisio ar yr holl arian a ddyrannwyd i'r Gymru Wledig cyn BREXIT. Fe allai datganoli dyraniadau cyllid i lefel leol gyflymu'r broses hon.

Ond nid yw hyn yn ddigon, a byddem yn disgwyl i Lywodraeth Prydain wneud iawn am y cyllid y byddai'r Gymru Wledig wedi'i dderbyn pe baem yn parhau i fod yn aelod o'r UE.

Yn ogystal ag amaethyddiaeth, mae'r Gymru Wledig yn gartref i lawer o sefydliadau'r sector cyhoeddus sydd wedi elwa'n aruthrol ar raglenni a chyllid yr UE dros y 30 mlynedd diwethaf. Bydd Brexit felly yn cael effaith fawr ar eu cynlluniau yn y dyfodol, eu potensial i ddarparu swyddi a'r gostyngiad dilynol sylweddol mewn gwariant yn yr economi wledig leol.

Un o fanteision mawr cyllid yr UE yw ei fod yn gyllid aml-flwyddyn. Mae hyn yn golygu bod busnesau a sefydliadau'n gallu cynllunio yn y tymor hir. Bydd angen i Lywodraeth Cymru feddwl am ffordd o sicrhau bod y cynllunio tymor hir hwn yn gallu parhau, ac na fydd cylchoedd cyllideb blynyddol yn llesteirio datblygiad economaidd. Gellid helpu drwy roi'r arweiniad i awdurdodau lleol lle bo'n bosibl a dileu cyllid ôl-weithredol, gan nad yw busnesau bach yn gallu cynnal llif arian.



## MAE'R ECONOMI WLEDIG YN WAHANOL IAWN I'R ECONOMI DREFOL AC MAE ARDALOEDD GWLEDIG YN WYNEBU HERIAU UNIGRYW, AC ANGEN EU POLISI PENODOL EU HUNAIN ER MWYN CYFLAWNI EU POTENSIAL ECONOMAIDD A SICRHAU EU PARHAD YN Y DYFODOL.

### MYNNU CAEL CYFRAN DEG I'R GYMRU WLEDIG

Mae'r Gymru Wledig yn wynebu heriau gwahanol i weddill y wlad. Mae'n rhaid cydnabod ei bod hi'n llawer drutach darparu'r un gwasanaethau yn ardaloedd gwledig Cymru o gymharu â'r ardaloedd trefol.

Dylid asesu a yw rhaglenni a staff Llywodraeth Cymru'n ddigonol i ddiwallu anghenion y Gymru Wledig a gwirio i weld a yw'r Gymru Wledig yn derbyn ei chyfran deg o raglenni cenedlaethol Llywodraeth Cymru.

Dylai awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru ystyried modelau cyflawni gwasanaethau eraill yn y Gymru Wledig yn cynnwys telewasanaethau. Mae'n rhaid i ni sicrhau bod unrhyw bolisïau gwleidyddol a ddaw gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn addas i'r Gymru Wledig.

# CYNLLUN

## CHWE PHWYNT

01 ADEILADU AR SEILWAITH Y GYMRU WLEDIG

02 CYNYDDU SGILIAU A CHYNHYRCHIANT Y GYMRU WLEDIG

03 TYFU EIN BUSNESAU

04 HYRWYDDO BWYD, FFERMIO A CHOEDWIGAETH

05 DEFNYDDIO'R ECONOMI SYLFAENOL I SICRHAU BOD SWYDDI LLEOL YN CAEL EU DARPARU I BOBL LEOL

06 CYFLAWNI POTENSIAL TWRISTIAETH










# ADEILADU AR SEILWAITH Y GYMRU WLEDIG

## FEL YN ACHOS RHANNAU ERAILL O'R DEYRNAS UNEDIG, MAE CYMUNEDAU GWLEDIG O DAN ANFANTAIS GYSTADLEUOL O'U CYMHARU Â CHANOLFANNAU TREFOL.





Mae hyn yn arbennig o wir am ddatblygiadau seilwaith y sector preifat yn y Gymru Wledig.

O ran band eang, mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod hyn, ac wedi buddsoddi llawer yn Rhaglen Cyflymu Cymru, sy'n ceisio darparu band eang yn 96% o ardaloedd Cymru erbyn diwedd 2017.

Mae hyn yn wych, ac yn rhoi mantais gystadleuol i'r Gymru Wledig o'i chymharu â rhannau eraill y DU. Mae angen i Lywodraeth Cymru hyrwyddo hyn yn gadarnach yn eu gweithgareddau mewnfuddsoddi.

Mae angen i lywodraethau'r DU a Chymru gydnabod bod darparu signal ffôn symudol yn y Gymru Wledig yn anoddach na rhannau eraill o'r DU oherwydd y dirwedd wledig fryniog a mynyddig, poblogaeth denau a chyfyngiadau cynllunio cyfredol. Dylai unrhyw ymyriadau hyrwyddo sy'n gysylltiedig â Band Eang Cyflym Iawn gael ei thargedu i'r grwpiau hynny sy'n llai tebygol o fanteisio arno - mae yna anghyfartaledd o ran y rhai sy'n manteisio ar draws grwpiau oedran ac ar draws trothwyon incwm.

Mae poblogaethau gwledig tenau hefyd yn cyfrannu at gyfyngiadau masnachol sy'n atal darparu seilwaith dŵr a charthffosiaeth, ac mae hyn yn cael effaith ganlyniadol ar ddatblygu busnes a thai.

O ran trafnidiaeth, ychydig iawn o ffyrdd deuol neu draffyrdd sydd gan y Gymru Wledig. Mae wedi'i chysylltu'n bennaf drwy rwydwaith o gefnffyrdd a ffyrdd categori A a wasanaethir gan awdurdodau lleol.

IMae trafnidiaeth gyhoeddus yn y Gymru Wledig yn cael llawer o gymhorthdal ac yn cael ei darparu gan fysiau yn bennaf, sy'n gweithredu o dan gapasiti yn aml; yn wir, mae eu diffyg hyblygrwydd yn anaddas i'r diwrnod gwaith modern a'r boblogaeth wasgaredig.

Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gael strategaeth i ddiogelu prif borthladdoedd y Gymru Wledig (Aberdaugleddau, Porthladd Penfro, Porthladd Caergybi a Harbwr Abergwaun, Mostyn) yn wyneb y bygythiad gan Brexit.

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod rheilffyrdd sy'n cysylltu'r Gorllewin a'r Dwyrain a rhai trefi ar arfordir y gogledd yn cael eu hyrwyddo a'u defnyddio.

## ARGYMHELLION

- Cymell seilwaith fel bod cerbydau trydan yn gallu gwefru ledled y Gymru Wledig i annog busnesau a llywodraeth leol i arwain y blaen yn y DU mewn ardaloedd gwledig, a threialu'r defnydd o gerbydau trydan diyrrwr, a allai, gyda chymorthdaliadau yn y tymor hir, ddarparu system drafnidiaeth gyhoeddus ratach a mwy hyblyg yn y Gymru Wledig. Dylai Llywodraeth Cymru estyn allan i gwmnïau o Tsieina fel rhan o fenter Belt a Ffordd ehangach i ddod â thacsis trydan i'r Gymru wledig.

- Annog Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i roi pwysau ar y cwmnïau sy'n gyfrifol am gynnal y Grid Cenedlaethol i atgyfnerthu'r rhwydwaith mewn ardaloedd lle mae'r grid ar ei wannaf a chyfleoedd datblygu economaidd ar eu cryfaf, yn enwedig lle mae yna botensial i ddefnyddio gwaith cynhyrchu ynni adnewyddadwy a'r defnydd o gerbydau trydan.

- Dylai Llywodraeth Cymru ystyried yr opsiwn o gael cronfa seilwaith ynni newydd.

- Cynllunio'n hirdymor ar gyfer seilwaith ffyrdd a ffyrdd deuol lle bo'n briodol rhwng y gogledd a'r de a'r gorllewin a'r dwyrain.

- Annog cydweithredu a chymorth trawsffiniol ar gyfer cysylltedd seilwaith i Ganolbarth Lloegr.

- Rhoi pwysau ar Lywodraeth y DU i wneud mastiau ffonau symudol yn rhwymedigaeth gwasanaethau cyhoeddus cyffredinol ac annog darparwyr ffonau symudol i rannu mastiau.










# CYNYDDU SGILIAU A CHYNHYRCHIANT Y GYMRU WLEDIG

Mae addysg, hyfforddiant galwedigaethol a dysgu gydol oes yn elfennau canolog o gyflogadwyedd a datblygu mentrau cynaliadwy.

Bydd gwella cyfraddau cynhyrchiant yn y Gymru Wledig yn y pen draw yn dibynnu ar gynyddu nifer y bobl sydd mewn gwaith ac ar wella'r broses o ddatblygu sgiliau.

Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol, roedd lefelau cynhyrchiant ym mhob isranbarth o Gymru yn is na'r cyfartaledd ar gyfer y DU. Y perfformiad isaf oedd isranbarth gwledig Powys, gyda lefel gwerth ychwanegol gros o 67.3% o gyfartaledd y DU.

# ARGYMHELLION

- Cynnal ffocws ar godi safonau mewn ysgolion gwledig, sy'n wahanol iawn i'w gilydd a chydnabod yr angen am ddull o ddarparu cymorth i ymateb i heriau gwledig penodol.

- Adeiladu ar y gwaith sy'n cael ei wneud eisoes gan y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol i barhau â'r cydweithio sy'n digwydd rhwng diwydiant a sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch fel bod y sgiliau a addysgir yn cyfateb i'r hyn sydd ei angen.

- Cynnal archwiliad sgiliau penodol a blaengynllunio mewn sectorau allweddol yn y Gymru Wledig, er enghraifft y sectorau gofal a lletygarwch, yn enwedig yn sgîl BREXIT. Defnyddio'r archwiliad hwn i ysgogi ac annog hyfforddiant mewn cyrsiau perthnasol.

- Hwyluso addysg dechnoleg yn y sector ffermio i fanteisio ar ddatblygiadau mewn meysydd fel amaethyddiaeth manwl ac amaeth-dechnoleg, gan gysylltu'n uniongyrchol â'r sector addysg uwch.

- Hyrwyddo allgymorth o sectorau fel paratoi bwyd, twristiaeth, lletygarwch i ysgolion lleol, fel y gellir cyfuno profiadau bywyd go iawn a defnydd o sgiliau gyda dull ymarferol.

- Annog menywod a phobl hŷn nad oes ganddynt gynrychiolaeth ddigonol o bell ffordd i ennill ac uwchraddio eu sgiliau digidol i fanteisio ar y cyfleoedd gwaith a ddaw yn sgil band eang cyflym iawn.



- Cydnabod bod darparu cyrsiau fel gwaith plymio a pheirianneg drydanol yn ddrutach yn y Gymru Wledig a sicrhau bod hyn yn cael ei ystyried wrth ddyrannu adnoddau addysg bellach.

- Ystyried a ddylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu dull porth gwe “Scotland Rural College” i sicrhau un ffocws hyrwyddo ar gyfer yr holl gyrsiau a chymwysterau gwledig perthnasol sydd ar gael.



# TYFU EIN BUSNESAU

## YN Y GYMRU WLEDIG

Er bod yna lu o ddiwydiannau a busnesau a allai elwa ar raglen datblygu economaidd gadarn ar gyfer y Gymru Wledig, mae'n gwneud synnwyr canolbwyntio ar sectorau lle mae gennym fantais gystadleuol eisoes a lle mae yna fwy o botensial ar gyfer twf neu lle gall busnesau lleol helpu i ddarparu gwasanaethau lleol hanfodol.

Dylid cydnabod bod yr amgylchedd yn gaffaeliad allweddol y gellid ei ddefnyddio i gyflawni gwerth economaidd.



## ARGYMHELLION

- Darparu cymorth wedi'i deilwra i fusnesau cynhenid gan ddefnyddio technoleg i ddarparu hyfforddiant modiwlaidd, cyfleus a rhyngweithiol i fusnesau sydd am sefydlu eu hunain yn y Gymru Wledig a helpu endidau sy'n bodoli'n barod i dyfu. Dylai'r hyfforddiant hwn ganolbwyntio ar yr angen i ychwanegu gwerth i adnoddau lleol yn arbennig.

- Sicrhau y gall busnesau gael gafael ar gyllid ar gyfraddau ffafriol yn haws, yn enwedig ar gyfer benthyciadau hirdymor drwy Fanc Datblygu Cymru. Sicrhau bod hyn yn darparu cyllid benthyciadau byr ledled y Gymru Wledig, yn enwedig i ficrofusnesau sy'n darparu llawer o swyddi. Sicrhau bod argymhellion "Cymorth anariannol ac ariannol Llywodraeth Cymru i Fusnesau Bach a Chanolig Cymru" yn cael eu gweithredu, ond yn cael eu haddasu i anghenion gwledig.

- Datblygu y tu hwnt i Ardaloedd Menter Gwledig yn y Gymru Wledig a chyflwyno cymhellion trêth o amgylch canolfannau a threfi marchnad allweddol, yn ddelfrydol gan ddefnyddio cyfleusterau sydd yno'n barod fel tafarnau ac ysgolion lleol a siopau gwag yng nghanol trefi.

- Adeiladu ar lwyddiant entrepreneuriaid gwledig ac ymchwilio pam mae adroddiadau diweddar wedi awgrymu bod cyfradd y busnesau newydd yn y Gymru Wledig yn llawer is na chyfraddau Cymru'n gyffredinol. Ystyriwch sut gall menter creusbarc.cymru gysylltu entrepreneuriaid a sefydliadau.

# CANOLBWYNTIO MEWNFUDDSODDIAD I'R GYMRU WLEDIG I FUSNESAU SY'N CHWILIO AM AMGYLCHEDD GLÂN.



- Ail-weithio canolbwyntiau sy'n seiliedig ar lefydd sy'n gallu cynnwys y sector preifat yn ehangach i greu menter a chefnogi busnesau newydd - nid cyngor busnes a ddarperir yn rhanbarthol gan asiantaethau arbenigol a gontractiwyd yn unig.

- Nodi sut gall asiantaethau datblygu gwledig llwyddiannus fel Planed, Antur Teifi, Cadwyn Clwyd a Menter Môn gael eu cefnogi yn y dyfodol, gyda chymorth gan CGGC o bosibl.

- Cefnogi'r symudiad tuag at hunangyflogaeth mewn pentrefi a'u cyffiniau yn y Gymru Wledig gan ystyried tai priodol a lleoliadau cydweithio mewn Cynlluniau Datblygu Lleol yn y dyfodol.

- Diwygio canllawiau a diwylliant cynllunio ac addasu Cynlluniau Datblygu Lleol i helpu i hyrwyddo a meithrin busnesau. Bod yn hyblyg lle bo'n briodol gyda rheoliadau adeiladu, trwyddedu, caffael a safonau masnach gyda'r nod o sicrhau bod buddsoddwyr yn deall bod y Gymru Wledig "ar agor i fusnes". Sicrhau bod gan adrannau cynllunio ddigon o adnoddau.

- Cyflwyno cwrs darparu gwybodaeth ar gyfer pob awdurdod cynllunio gwledig sy'n gofyn i bob awdurdod cynllunio lleol gynnig cyngor cyn i bobl wneud cais ac annog busnesau i fanteisio ar y gwasanaeth hwn er mwyn cyflawni'r nod a rennir o sicrhau datblygiad priodol sy'n diwallu'r anghenion am ddatblygu cynaliadwy i genedlaethau heddiw ac yfory, yn enwedig y bobl sydd wedi byw yn yr ardal am nifer o flynyddoedd.

- Dylai Llywodraeth Cymru weithredu argymhellion Adroddiad Marsden ac Adroddiad Tirweddau'r Dyfodol: Cyflawni dros Gymru, sy'n caniatáu cyflogaeth a gweithgarwch economaidd mewn Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol ond sy'n dal i barchu ystyriaethau amgylcheddol.

- Sefydlu bwrsari gwledig i gefnogi pobl ifanc sy'n awyddus i sefydlu eu busnesau eu hunain mewn ardaloedd gwledig.

# HYRWYDDO BWYD, FFERMIO A CHOEDWIGAETH

Mae Bwyd, Ffermio a Choedwigaeth yn annog dulliau rheoli amaethyddiaeth ac amgylchedd cynaliadwy ledled cefn gwlad a'r cymunedau gwledig. Mae ffermio yng Nghymru'n cwmpasu'r ystod lawn o gynhyrchu amaethyddol, sydd o fudd i drefniadaeth y gadwyn fwyd, yn cynnwys prosesu a marchnata cynnyrch Cymreig. Mae ein hadnoddau naturiol a'n hecosystemau yn darparu'r sylfaen i fyw a gweithio yng Nghymru.

## ARGYMHELLION

- Penodi diwydiannwr profiadol iawn i oruchwylio bwyd, ffermio a choedwigaeth.

- Sicrhau newidiadau yn holl reolau caffael y sector cyhoeddus i sicrhau'r defnydd o fwyd lleol cyn belled â bod hynny'n bosibl.

- Defnyddio trefniadau caffael lleol i ddarparu marchnad galw sicr a domestig gychwynnol (i wneud iawn am y perygl o golli marchnad yr UE) yn enwedig ar gyfer cig oen a chig eidion ac annog ffermwyr i gydweithio a bod yn rhan o fentrau cydweithredol.

- Defnyddio trefniadau caffael cyhoeddus a marchnad sicr i annog gwerth ychwanegol i fwyd lleol gyda sicrwydd ansawdd a niferoedd.

- • Defnyddio trefniadau caffael cyhoeddus i hwyluso'r broses o ddatblygu cysylltiadau gyda manwerthwyr mawr i sicrhau bod cadwyni cyflenwi cynaliadwy'n cael eu creu er budd ffermwyr Cymru, proseswyr Cymru a'r archfarchnadoedd eu hunain.

- Diwygio a bod yn fwy uchelgeisiol wrth ddarparu 'Tuag at Dwf Cynaliadwy: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod yng Nghymru 2014-2020'.



# "ERS 45 O FLYNYDDOEDD MAE'R POLISI AMAETHYDDOL CYFFREDIN (PAC) WEDI RHEOLI'R FFORDD MAE'R DU YN FFERMIO - OND BYDD BREXIT YN DOD Â HYNNY I BEN."



- Dylai prifysgolion sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar arloesedd a masnacheiddio yn enwedig ym maes bwyd, planhigion a biowyddoniaeth yn ogystal â'u gwaith ymchwil. Dylid defnyddio sefydliadau fel Menter a Busnes i hyrwyddo arloesedd – yn enwedig ym maes bwyd.

- Datblygu strategaeth i ychwanegu mwy o werth i gynnyrch llaeth mewn canolfan ddaearyddol benodol, yn unol ag argymhellion yr Adolygiad o Ddiwydiant Llaeth Cymru.

- Ystyried manteision a chyfyngiadau buddsoddi mwy mewn cyfleusterau oeri/rhewi i ganiatáu mwy o hyblygrwydd yn y diwydiant cig ac fel y gellir allforio y tu hwnt i ffiniau'r UE.

- Manteisio ar y cyfleoedd niferus yn y sector coedwigaeth, fel cynnyrch crai ac fel deunydd a all ychwanegu gwerth yn lleol, a sicrhau ei ddefnydd yng nghadwyn gyflenwi adeiladu.

- Canolbwyntio ar fanteision ucheldir Cymru gyda strategaeth integredig o wasanaethau bwyd, twristiaeth, ynni ac ecosystem (rheoli carbon a dŵr) mewn byd ôl-Brexit ac ystyried y posibilrwydd o ddarparu prosiect peilot dad-ddofi tir.

- Datblygu strategaeth "cig hela" a physgod cregyn Cymru.



# DEFNYDDIO'R ECONOMI SYLFAENOL I SICRHAU BOD SWYDDI LLEOL YN CAEL EU DARPARU I BOBL LEOL

Er bod Cymru wedi colli llawer iawn o'i diwydiant gweithgynhyrchu, mae'r economi sylfaenol (tua 40% o weithgarwch economaidd) yn ymwneud â'r nwyddau a'r gwasanaethau hanfodol mae pawb eu hangen mewn bywyd bob dydd.

Canlyniad hyn yw nad yw'r economi hon yn cael ei heffeithio'n sylweddol pan fo prisiau ac incwm pobl yn newid.

Yn y bôn, fe fydd galw o hyd am gyfleustodau, bwyd, iechyd, addysg, lles a seilwaith. Mae'r economi yn lleol i raddau helaeth. Mae'r cyfuniad o'r ffactorau hyn yn golygu bod yr economi sylfaenol yn fwy cadarn i allu gwrthsefyll chwiwiau'r farchnad a gwahanol broblemau economaidd. Mae sicrhau bod gwerth yr economi sylfaenol yn cael ei ddatblygu a'i ddal yn lleol yn un o argymhellion craidd yr adroddiad hwn.

## ARGYMHELLION

• Darparu cymorth i gadw cadwyni cyflenwi mor fyr a lleol â phosibl er mwyn cadw'r manteision economaidd o fewn y gymuned (e.e. adeiladu ar fodel cymuned 4CG Aberteifi).

• Dylai Llywodraeth Cymru gydnabod, er ei bod wedi ymrwymo i adeiladu tai fforddiadwy, bod yna ddiffyg buddsoddi wedi bod gan y sector preifat yn y Gymru Wledig ac o ganlyniad i hynny, bod yna ostyngiad wedi bod yn nifer y cwmnïau adeiladu lleol a nifer cyfyngedig o dai newydd wedi'u hadeiladu.

Dylai Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol gynnal adolygiad trylwyr, a ddylai gynnwys diffiniad o ystyr tai fforddiadwy mewn ardaloedd gwledig ar ôl ymgynghori â chwmnïau adeiladu ar beth sydd angen ei newid er mwyn annog tai fforddiadwy i gael eu hadeiladu yn y Gymru Wledig.

• Hysbysebu ac annog cynllun "Cymorth i Brynu" yn y Gymru Wledig i brynwyr am y tro cyntaf o'r gymuned leol.

• Blaenoriaethu a gweithio gyda'r awdurdodau perthnasol i lacio'r rheolau cynllunio mewn perthynas ag adeiladu eco-gartrefi gofal i bobl hŷn, sy'n defnyddio deunyddiau o Gymru (drwy ddefnydd creadigol o reolau caffael) fel coed Cymru ac yn darparu prentisiaethau i bobl leol.

Dylid darparu cyfleusterau gofal a chanolfannau gofal ychwanegol mewn ardaloedd gwledig, gyda sefydliadau tai cymunedol yn arwain y gwaith yn ddelfrydol.




- Galluogi mwy a mwy o fusnesau gwledig i greu eu hynni gwyrdd eu hunain, gyda phwyslais ar ynni gwynt, cynhyrchu biodanwydd, treuliad anaerobig a phrosesau eraill sy'n dod yn fwy a mwy hyfyw ar raddfa fechan.

- Annog mwy o ddefnydd o ynni oddi ar y grid/grid lleol: edrych ar y cyfleoedd sydd ar gael gan Fenter Smart Villages.

- Datblygu atebion dychmygus yn cynnwys cynlluniau adnewyddadwy bach i fynd i'r afael â thlodi tanwydd.

- Annog modelau cymunedol ar gyfer gofal cymdeithasol yn defnyddio'r asedau cyfalaf cymdeithasol sydd eisoes yn bodoli yn y Gymru Wledig.

- Dylid defnyddio modelau cymorth sy'n pontio'r cenedlaethau a fydd yn helpu i ddatblygu sgiliau, cadw pobl ifanc a mynd i'r afael ag arwahanrwydd cymdeithasol.

- Hyfforddi pobl ar gyfer gwaith gofal plant.









# CYFLAWNI POTENSIAL TWRISTIAETH

Mae twristiaeth a hamdden yn llwyfannau economaidd sylfaenol i economi Cymru a hyd yn oed yn bwysicach i'r Gymru Wledig.

Yn ôl Croeso Cymru, mae ymwelwyr yn gwario tua £14 miliwn y dydd pan fyddant yn y wlad, sy'n cyfateb i tua £5.1 biliwn y flwyddyn.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n galed i hybu'r diwydiant twristiaeth ond gellid gwneud mwy er budd y Gymru Wledig sydd wedi'i bendithio'n fawr yn naturiol, hanesyddol, daearyddol a diwylliannol.

## ARGYMHELLION

- Atgyfnerthu strategaethau sy'n bodoli eisoes mewn trefi glan môr ledled Cymru.

- Ehangu gwaith Croeso Cymru i farchnata lleoliadau arfordirol ar arfordir y Gorllewin a hyrwyddo Llwybr Arfordir Cymru.

- Nodi tir coedwigaeth yng Ngogledd Powys ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru i greu canolfannau gweithgareddau hamdden coetiroedd. Trefnu cynllunio ymlaen llaw ar gyfer seilwaith y safle a chynhyrchu prosbectws yn gwahodd cynigion creadigol gan y sector preifat.

CESTYLL, TREFTADAETH, GOLYGFEYDD AC ARFORDIROEDD GODIDOG...

# MAE CYMRU'N DENU NOFWYR, CHWILOTWYR GLAN MÔR, NATURIAETHWYR, CERDDWYR AC ANTURWYR AWYR AGORED.

**YN 2015, CAFODD CERNYW 4.3 MILIWN O YMWELWYR OEDD YN AROS A THEIRGWAITH MWY O YMWELWYR DYDD, 14.7 MILIWN. O GYMHARU Â HYN, CAFODD SIR BENFRO 2.3 MILIWN O YMWELWYR YN AROS YN 2015 OND DIM OND 2.0 MILIWN O YMWELWYR DYDD...**

- Annog Twristiaeth Cymru i adael i'r sector preifat arwain y gwaith o ddatblygu ymgyrchoedd marchnata lleoliadau (seiliedig ar lefydd) sy'n canolbwyntio ar greu cyfleoedd teithiau dydd ychwanegol drwy gydweithio â darparwyr rheilffyrdd i ddarparu tocynnau teithio dychwelyd 24 awr rhad ar drenau a bysiau gwennol trydan i ymwelwyr dydd.

- Ymestyn y tymor twristiaeth i ddarparu cynaliadwyedd yn yr economi wledig.

- Defnyddio'r Gymraeg a diwylliant Cymru fel ffactor cadarnhaol unigryw mewn perthynas â thwristiaeth.

- Creu canolfan ragoriaeth ar gyfer twristiaeth yn y Gymru Wledig ac ar gyfer y Gymru Wledig.

- Sicrhau bod Llywodraeth Cymru'n datblygu strategaeth dwristiaeth wledig ehangach y tu hwnt i Sir Benfro, Eryri a Bannau Brycheiniog, yn cynnwys hyrwyddo gweithgareddau a digwyddiadau y tu hwnt i'r adegau prysuraf a thros y gaeaf.



# PROSIECTAU PEILOT
# BAROD I FYND AMDANI

Yn ystod ein cyfarfodydd, mae'r Fforwm Economaidd Gwledig wedi trafod sawl prosiect peilot posibl ar gyfer y Gymru Wledig yn benodol, ac a allai fod yn ysgogiad i don newydd o ddatblygiadau ar draws yr ardal. Isod, rhestrir rhai prosiectau peilot y gellid eu darparu erbyn 2020.

1. **ECO-GARTREFI I BOBL HŶN**
2. **DARPARWYR GOFAL CYMUNEDOL LLEOL**
3. **PORTH CYMRU WLEDIG**
4. **CERBYDAU TRYDAN AR GYFER Y GYMRU WLEDIG**
5. **DATBLYGU CANOLFAN RAGORIAETH BRIDIO CEFFYLAU YNG NGHYMRU**
6. **DEFNYDDIO CAFFAEL CYHOEDDUS I YSGOGI DATBLYGIAD**
   *...Cymru fel prifddinas Pastai Bugail y byd!*
7. **HYDROPONEG**
8. **ADDYSGU SAESNEG I TSIEINEAID YN Y GYMRU WLEDIG**
9. **AILGYFEIRIO RHAGLEN CYMUNEDAU YN GYNTAF LLYWODRAETH CYMRU**

# ECO-GARTREFI I BOBL HŶN

Mae prinder tai a chyfleusterau priodol mewn llawer o ardaloedd yn y Gymru Wledig, a'r her ddemograffig gynyddol sy'n ein hwynebu yn sgil poblogaeth sy'n heneiddio, wedi creu pwysau aruthrol ar wasanaethau iechyd llywodraeth leol i ofalu am bobl hŷn.

Mae'r angen i ddarparu cyfleusterau gofal ychwanegol a diwallu anghenion cynyddol y rhai sy'n byw gyda dementia yn arbennig o bwysig. Mae'r sector preifat yn amharod i fuddsoddi mewn gofal mewn lleoliadau gwledig ac nid yw'r rhai sy'n gwneud yn ddarparwyr lleol yn aml.

Gallai awdurdodau lleol gymryd rôl ragweithiol i nodi tir newydd sydd ar gael ar gyfer prosiectau o'r fath.

Byddem yn awgrymu bod pob awdurdod lleol yn ymgynghori â phob cymuned leol ac yna'n ymrwymo i adeiladu grŵp o hyd at 12 eco-gartref dan ofal Cymdeithasau Tai i ddechrau. Bydd y rhain yn cael eu hadeiladu'n benodol ar gyfer pobl hŷn, gyda lle i welyau camu i fyny a chamu i lawr o ysbytai, a lle gall gofalwr fod wrth law i helpu.

Dylai Llywodraeth Cymru helpu i hwyluso benthyca cyhoeddus cost isel at ddibenion o'r fath.

Dylid defnyddio eco-gartrefi fel dull o sicrhau bod modd sefydlu cadwyni cyflenwi lleol byr sy'n defnyddio cynhyrchion lleol fel coed ac yn defnyddio prentisiaethau.

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y Gymru Wledig yn derbyn ei chyfran o'r 20,000 o dai newydd a gawsant eu haddo, a allai fod oddeutu 5,000 o dai. Mae eco-gartrefi/tai ynni goddefol yn economaidd iawn i'w cynhesu a'u cynnal ar ôl cael eu hadeiladu; byddai hyn yn lleihau tlodi tanwydd ac yn cyfrannu at dargedau allyriadau newid yn yr hinsawdd.

Lle bo hynny'n bosibl, dylid adeiladu'r tai hyn gan ddefnyddio deunyddiau lleol (coed yn arbennig), cyflenwadau lleol a gweithlu medrus lleol; gan ddarparu cyfleoedd prentisiaeth yn ddelfrydol. Unwaith y bydd y tai hyn wedi'u hadeiladu dylent ryddhau tai lleol i bobl iau. Dylid sicrhau bod cyfamodau'n cael eu gosod ar y tai hyn i sicrhau mai pobl leol sy'n gallu prynu neu rentu'r tai hyn.



# DARPARWYR GOFAL CYMUNEDOL LLEOL





Ochr yn ochr â datblygu Eco-gartrefi i bobl hŷn, byddem yn argymell bod awdurdodau lleol yn darparu cymorth i Gymdeithasau Tai, Cydweithrediaethau Tai neu Grwpiau Cymunedol fel y gallant sefydlu darpariaeth gofal cymunedol lleol yn lle rhoi'r gwaith hwn allan i gwmnïau o bell nad ydynt yn deall y gymuned maent yn ei gwasanaethau i'r un graddau.

Gellid seilio hyn ar fodel gwirfoddoli Gofal Solfach a gofal hosbis tebyg (e.e. Sefydliad Paul Sartori yn Sir Benfro), ond mae angen ei ehangu o gyllideb gofal cymdeithasol awdurdodau lleol.

Dylid sefydlu un model o'r fath mewn un gymuned ym mhob awdurdod lleol cyn 2020.

# PORTH CYMRU WLEDIG

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn darparu nifer o raglenni i ddatblygu'r economi yn y Gymru Wledig, ond mae'n anodd i ddinasyddion ganfod gwybodaeth am y rhain. Dylid darparu un porth Datblygu Gwledig Cymru (yn seiliedig ar lefydd) fel pwynt mynediad a fydd yn cyfeirio defnyddwyr at yr adran gyngor berthnasol.

Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru weithio gyda llywodraeth leol yn y Gymru Wledig i ddatblygu Gwefan y Gymru Wledig lle gellir cael gafael yn hawdd ar wybodaeth ar gyfer datblygu busnes mewn un lle.



# CERBYDAU TRYDAN AR GYFER Y GYMRU WLEDIG

Dylai pob awdurdod lleol yn y Gymru Wledig orfod darparu o leiaf 10 lle gwefru cerbydau trydan yn cynnwys rhai ar gyfer cerbydau TESLA erbyn 2018, naill ai ar eu pen eu hunain neu mewn partneriaeth â'r sector preifat.

Byddai hyn yn annog y symudwyr cyntaf rheiny ac unigolion gwerth uchel yn gyffredinol sydd â cherbydau trydan i ymweld â'r ardal.

Dylai awdurdodau lleol yn y Gymru Wledig greu ap datblygu gwledig rhannu ceir.

Gan edrych i'r dyfodol, dylai Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol geisio meithrin partneriaeth â chwmni cerbydau trydan diyrrwr i gynnig Cymru fel ardal dreialu prosiect peilot.

## DEVELOPING A HORSE BREEDING CENTRE OF EXCELLENCE IN WALES

The breeding, raising and racing of horses can provide significant financial benefits to local economies.

The Welsh Government should consider what measures can be introduced to encourage horse breeding and racing around Ffos Las area.

Ffos Las Racecourse opened in 2009 and brought back top class racing to West Wales for the first time since 1937.

## AILGYFEIRIO RHAGLEN CYMUNEDAU YN GYNTAF LLYWODRAETH CYMRU

Dylai asiantaethau'r Llywodraeth nodi unigolion economaidd anweithgar yn yr ardaloedd tlotaf i dderbyn talebau hyfforddiant gwerth penodol sydd wedi'u teilwra'n bersonol.

Dylid rhoi pwyslais ar amrywiaeth mewn cyflogaeth, yn enwedig pwyslais ar y rhai nad oes ganddynt gynrychiolaeth ddigonol ar hyn o bryd.

Dylid datblygu dyraniad cyllid penodol mewn partneriaeth ag adrannau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i dreialu'r prosiect peilot hwn.

# DEFNYDDIO CAFFAEL CYHOEDDUS I YSGOGI DATBLYGIAD CYMRU FEL PRIFDDINAS PASTAI BUGAIL Y BYD!



Mae cig oen Cymru wedi cael ei ystyried fel cynnyrch gwerthfawr ers blynyddoedd lawer ond nid yw'n gallu cystadlu'n dda â chig oen o Seland Newydd, sy'n cael ei fewnforio am brisiau llawer rhatach. Ymhellach, pe bai Cymru'n colli ei mynediad cyfredol i farchnad yr UE ac yn gorfod dibynnu ar reolau Sefydliad Masnach y Byd, efallai y bydd rhaid i ni dalu cyfradd tariff o 46% mewn gwirionedd, a allai olygu na fydd cig oen Cymru yn gystadleuol. Mae'n rhaid i ni ychwanegu gwerth yn lleol i frand sy'n rhagorol eisoes drwy brosesu'r cynnyrch gwreiddiol. Mae oedolion y DU yn bwyta dros 79 miliwn o brydau parod bob wythnos.

MADE IN WALES

Mae'n rhaid i ni dargedu'r farchnad hon a darparu galw sicr cychwynnol drwy ddefnyddio trefniadau caffael cyhoeddus Cymru. (Wedi'u trefnu gan y diwydiannwr profiadol sydd newydd ei benodi). Bydd y diwydiannwr yn ymgysylltu'n uniongyrchol â'r archfarchnadoedd hefyd i helpu i lywio penderfyniadau buddsoddi a meithrin partneriaethau sydd o fudd i'r ddwy ochr lle bo hynny'n bosibl.



Dylid annog partneriaethau caffael gyda busnesau prydau parod sydd eisoes yn bodoli neu fusnesau newydd, ochr yn ochr â dosbarthwr sydd wedi hen ennill ei blwyf, i sicrhau bod pastai bugail gyda'r holl gynhwysion o Gymru yn cael ei ddarparu i sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru sydd â chontract i ddarparu bwyd yng Nghymru. Byddai hyn yn darparu marchnad gartref ar gyfer cig oen Cymreig o ansawdd a allai fod o dan fygythiad difrifol ar ôl BREXIT o ran y cyfleoedd allforio fydd ar gael.



# HYDROPONEG

Mae yna bocedi sylweddol o ynni yn cael eu cynhyrchu yn y Gymru Wledig (e.e. ffermydd solar, ffermydd gwynt a chynlluniau hydro bach yn Sir Benfro, a gwres dros ben o fentrau mawr fel VALERO).

Yn lle dim ond cyflenwi'r grid neu wastraffu'r gwres hwn, gellid defnyddio'r ffynonellau ynni hyn yn lleol a fyddai'n gallu helpu i greu swyddi a mynd i'r afael â phroblemau gyda diogelwch bwyd. Yn benodol, byddem yn awgrymu cynllun peilot i gynhyrchu cnydau salad a llysiau gydol y flwyddyn gan ddefnyddio hydroponeg mewn tai gwydr a polydwnneli cynnes. Mae planhigion yn cael eu tyfu heb bridd, gan ddefnyddio toddiannau maetholion mwynol mewn toddydd dŵr.

Mae hwn yn ddiwydiant mawr a gallai adfer ardaloedd traddodiadol o arddwriaeth yn y Gymru Wledig fel Sir Benfro a Phen Llŷn, lle mae'r hinsawdd yn fwy ffafriol ac fe allai ychwanegu gwerth i gadwyni cyflenwi sy'n gysylltiedig â llwyddiannau cyfredol fel Puffin Potatoes.

# ADDYSGU SAESNEG I TSIEINIAID YN Y GYMRU WLEDIG

Mae gan Tsieina boblogaeth anferth o bobl ifanc sengl, cymharol gyfoethog y mae eu rhieni am iddynt dderbyn addysg ehangach i ddysgu Saesneg a phrofi bywyd y tu allan i Tsieina.



Byddai darparu cyrsiau Saesneg i fyfyrwyr Tsieiniaidd am 2-3 mis yn y Gymru Wledig gyda rhaglenni cydygysylltiedig o addysg awyr agored, chwaraeon, dysgu iaith, sgiliau trafod a chymdeithasol yn cael croeso mawr yn Tsieina.

Gellid defnyddio ysgolion gwledig sydd wedi cau i ddarparu gweithgareddau o'r fath a gellid annog teuluoedd lleol i roi llety i fyfyrwyr Tsieiniaidd am dâl. Mae cyfle i dreialu arbrawf rhwydwaith yn Ewrop.

Dylid annog dau awdurdod lleol i gynnal prosiect peilot cychwynnol. Dylai Llywodraeth Cymru benodi arbenigwr Tsieniaidd profiadol i arwain y fenter hon.



# CYFLAWNI

Dylai Llywodraeth Cymru gael cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod y cynllun hwn yn cael ei gyflawni. Dylent fod yn glir pwy sy'n gyfrifol am ddatblygu economaidd yn y Gymru Wledig, a phenderfynu ai'r Ysgrifennydd Economaidd neu'r Ysgrifennydd Materion Gwledig ddylai fod yn gyfrifol.

Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ddatblygu cynllun gweithredu gyda'r sector preifat a'r trydydd sector i benderfynu pwy sy'n gyfrifol am gyflawni beth mewn perthynas â'r ddogfen hon a deall bod cydberchnogaeth yn arwain at ddiffyg atebolrwydd a chanlyniadau cyflawni gwael.

Mae angen i Lywodraeth Cymru ddeall cyfyngiadau difrifol a diffyg gallu llywodraeth leol i sicrhau datblygu economaidd. Dylent gael eu gweld fel galluogwyr, yn cyflymu datblygiad ac yn edrych ar ffyrdd o wella eu gweithgareddau i'r diben hwn.

Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad o'r adnoddau a ddyrennir i'r Gymru Wledig yn benodol o fewn ei hadran datblygu economaidd a sicrhau bod swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ddatblygu economaidd yn y Gymru Wledig wedi'u lleoli yn y Gymru Wledig ac yn ddelfrydol, wedi'u cyd-leoli â gweithwyr datblygu economaidd eraill yn y rhanbarth.

Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad o lwyddiannau Bwrdd Datblygu Cymru Wledig a dysgu ohonynt.

Ar ôl Brexit, bydd Llywodraeth Cymru yn edrych i leihau nifer y gweision sifil. Mae 400 ohonynt yn rhan o'r gwaith o ddarparu cynlluniau cymorthdaliadau amaethyddiaeth yr UE ar hyn o bryd. Mae'n bwysig na fydd unrhyw ostyngiad cyffredinol yn effeithio'n anghymesur ar swyddfeydd isranbarthol mewn ardaloedd gwledig ac y dylid mabwysiadu dull mwy strategol i ad-drefnu staff ar gyfer datblygu economaidd.

## PENDERFYNIAD CLIR O BWY SY'N GYFRIFOL AM BETH...

## SEFYDLIADAU ANGORI



Dylid gofyn i gwmnïau angori sy'n gweithio yn y Gymru Wledig gymryd rôl allweddol i ddarparu arweiniad yn y sector preifat i helpu i gydgysylltu'r gwaith o ddarparu cynllun datblygu economaidd ar gyfer y Gymru Wledig e.e. Dŵr Cymru, BT a Scottish Power.

Mae gan y GIG, ysgolion a phrifysgolion rôl i hyrwyddo datblygu economaidd hefyd…

## COMISIYNYDD GWLEDIG ANNIBYNNOL

Rôl y Comisiynydd Gwledig fyddai dal Llywodraeth Cymru i gyfrif am sicrhau bod y cynllun ar y trywydd iawn i gael ei gwblhau yn brydlon a'i fod yn bodloni'r amcanion a nodwyd.



Bydd y Comisiynydd Gwledig yn gyfrifol am brawfesur polisïau gwledig a sicrhau bod y Gymru Wledig yn cael ei hystyried yn rhaglenni'r Llywodraeth.

Bydd y Comisiynydd Gwledig yn pennu'r safonau gofynnol y gellir eu disgwyl gan wasanaethau cyhoeddus, gyda Llywodraeth Cymru.

Bydd yn gweithredu mewn partneriaeth â llywodraeth leol, y trydydd sector a'r sector preifat.

Byddai'r Comisiynydd yn cysylltu'r ardaloedd gwledig a'r ardaloedd trefol ac yn hwyluso cydweithio trawsffiniol gydag awdurdodau lleol perthnasol yn Lloegr.

## CAIS AM GYMORTH I LYWODRAETH Y DU

Dylid datblygu cais sector preifat i Lywodraeth y DU gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol i helpu i ariannu mentrau yn y rhaglen hon.

Dylid defnyddio profiad y Ceisiadau Dinas-Ranbarthau llwyddiannus yng Nghymru i ddatblygu'r cais.



# DULL CYMUNEDOL

Y Gymuned ei hun yw ased cryfaf ein cymunedau gwledig o bell ffordd.

Mae cynnwys ac ymgysylltu â'r cyhoedd yn y Gymru Wledig a sicrhau eu bod yn cefnogi'r dull a gynigir yn y cynllun hwn yn hanfodol. Ni fydd gorfodi syniadau ar y Gymru Wledig heb ganiatâd yn llwyddo.

Mae'n hanfodol cynnal ymarfer ymgynghori pellgyrhaeddol i sicrhau cefnogaeth ar gyfer y dull hwn. Annog syniadau creadigol pellach drwy ddull datblygu economaidd cymunedol o'r gwaelod i fyny yw'r unig ffordd o sicrhau llwyddiant Cynllun Datblygu Economaidd ar gyfer y Gymru Wledig.

Y gymuned leol ddylai gymryd y cyfrifoldeb am gyflawni cymaint o'r cynllun hwn â phosibl a manteisio ar y cyfle i wneud hynny. Mae angen dull o weithredu "gyda" chymunedau nid "i" gymunedau er mwyn sicrhau bod ymyriadau mor effeithiol a chynaliadwy â phosibl.

# CASGLIAD

Datblygwyd y **Cynllun Chwe Phwyn**t yn yr adroddiad hwn gan bobl sy'n ymwneud â llawer o feysydd bywyd gwahanol yn y Gymru Wledig. Bydd adroddiad ar y trafodaethau hyn nawr yn cael ei rannu gyda'r rheini yn Llywodraeth Cymru ac mewn llywodraeth leol gyda golwg ar ddylanwadu ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu eu dull newydd o ymdrin â Datblygu Economaidd yng Nghymru.

Yr hyn sy'n amlwg yw na allwn fforddio colli amser.

Mae'n rhaid cyflwyno cynllun yn awr i sicrhau bod gan y Gymru Wledig y gallu i ffynnu'n economaidd yn y dyfodol a'i bod yn gallu parhau i fod yn amgylchedd hyfyw lle gall pobl ifanc a hŷn fyw a gweithio.

# CYFEIRIADAU


- http://gov.wales/statistics-and-research/sub-regional-productivity/?lang=en
- http://assemblyinbrief.wordpress.com/tag/common-agricultural-policy/
- http://www.assembly.wales/research%20documents/16-053-farming-sector-in-wales/16-053-web-english2.pdf
- http://ec.europa.eu/agriculture/sites/agriculture/files/rural-development-2014-2020/country-files/uk/press-summary-wales-26-05-2015_en.pdf
- http://www.gov.uk/government/news/wales-hits-major-1million-fibre-broadband-milestone
- http://pstatic.powys.gov.uk/fileadmin/Docs/Statistics/Themes/Economy/PiP2014_en.pdf
- http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?lang=en